Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 18 Hydref 2017
Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Llŷr Roberts, Dr Prysor Williams

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Hywel Griffiths, Dr Gwawr Jones, Sioned Roberts, Daniel Tiplady, Sara Whittam, Dr Catrin Haf Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Laura Beth Davies

Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Dr Lowri Morgans (Rheolwr Prosiectau Cynllunio Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Lisa Lewis, Yr Athro Emeritws Densil Morgan, Delyth Murphy, Dr Elin Royles, Carys Swain, Yr Athro Enlli Thomas, Dylan Davies, Gwenllian Jones, Siôn Lewis, Lois Nash, Steffan Nicholas, Tomos Watson

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon gan gynnwys Dr Hywel Griffiths ar ran Dr Elin Royles a Dr Gwawr Jones ar ran yr Athro Lisa Lewis. 1.2. Croesawyd Dr Lowri Morgans i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn ei phenodiad fel Rheolwr Prosiectau Cynllunio Academaidd. 1.3. Croesawyd Dr Prysor Williams i'w gyfarfod cyntaf yn dilyn ymddeoliad yr Athro Emeritws Deri Tomos.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	1.4. Nodwyd bod yr Athro Siwan Davies (sydd ar gyfnod sabothol), yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones a'r Athro Gwynedd Parry wedi'u penodi am dymor pellach. 1.5. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18. Nodwyd y penodwyd y canlynol: **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain** – Gwenllian Jones, Prifysgol Caerdydd a Siôn Lewis, Prifysgol Metropolitan Caerdydd **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Orllewin** – Tomos Watson, Prifysgol Abertawe a Dylan Davies, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **Cynrychiolwyr Prifysgolion y Gogledd Orllewin** – Lois Nash, Prifysgol Aberystwyth a Steffan Nicholas, Prifysgol Bangor **Cynrychiolydd Ôl-raddedig** – Laura Beth Davies, Prifysgol Caerdydd (ail dymor) **Swyddog UCMC** – dim enw 1.6. Diolchwyd i Adam Jones, Swyddog Datblygu Cyflogwyr a Myfyrwyr, am drefnu diwrnod anwytho'r myfyrwyr ar 15 Medi 2017. 1.7. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dr Dylan Foster Evans ar ei benodi'n Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar ymddeoliad yr Athro Sioned Davies. 1.8. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Athro Lisa Lewis ar dderbyn cadair bersonol. 1.9. Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwerfyl Roberts ar ennill gwobr Cyfraniad Oes, Mwy na Geiriau, Llywodraeth Cymru. 1.10. Estynnwyd llongyfarchiadau i Sara Whittam, un o staff academaidd Meddygaeth dan nawdd y Coleg, a oedd yn rhan o dîm Rhwydwaith Ysgolheictod ac Addysg Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a enillodd wobr Arloesi, Mwy na		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Geiriau, Llywodraeth Cymru, am baratoi gweithlu dwyieithog y dyfodol.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Gan mai dim ond un cynrychiolydd myfyrwyr a oedd yn bresennol gofynnwyd a oedd cworwm. Eglurwyd nad yw nifer y myfyrwyr sy'n bresennol yn effeithio ar y cworwm. Nodwyd hefyd bod adolygiad o Lywodraethiant y Coleg yn yr arfaeth a byddai cylch gorchwyl diwygiedig yn dilyn maes o law. 2.3. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	4.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar faterion yn ymwneud â'r Coleg. Adroddwyd bod y trafodaethau presennol yn awgrymu y bydd cyllideb y Coleg yn sefydlog yn ystod y tair blynedd nesaf. Yn wyneb hynny mae'r Coleg yn modelu grantiau pynciol tan 2020/21. 4.2. Cafwyd adroddiad llafar gan Dr Gwennan Schiavone ar ddatblygiad y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Bydd y Coleg yn cyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar agweddau o hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg. 4.3. Cafwyd adroddiad pellach gan Dr Gwennan Schiavone ar gynllun Cymraeg Gwaith Addysg Uwch. Mae pob sefydliad addysg uwch yn rhan o'r cynllun a gyllidir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. 4.4. Adroddwyd ar ymateb y Coleg i Ymgynghoriad Addysg a Hyfforddiant ôl orfodol (PCET), corff rheoleiddio newydd a		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	fydd yn disodli'r Cyngor Cyllido ac yn ymgorffori rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.		
5. Adolygiad o weithgareddau'r Coleg	5.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar ymateb y Coleg i argymhellion adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar weithgareddau'r Coleg, gan gynnwys diweddariad ar ddatblygiadau. 5.2. Nodwyd y trafodwyd a chytunwyd ar ymateb cychwynnol y rheolwyr i'r argymhellion yn yr adroddiad yng nghyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Medi 2017. 5.3. Prif argymhellion yr adroddiad oedd: • Marchnata – Bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Marchnata a Hyrwyddo ar gyfer 2018/19. • Llywodraethiant y Coleg - Mae Gweithgor y Cyfansoddiad eisoes wedi cwrdd dan gadeiryddiaeth yr Athro Iwan Davies, i adolygu cyfansoddiad a llywodraethiant y Coleg gan gynnwys newidiadau i'w bwyllgorau statudol a'u cylchoedd gorchwyl. • Ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol ehangach – Adroddwyd ar y trafodaethau cyfredol a disgwylir cyhoeddiad ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Cabinet cyn y Nadolig. 5.4. Mae nifer o'r argymhellion eraill eisoes yn weithredol neu ar waith a bydd adolygiad o'r ysgoloriaethau israddedig a meistr yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf. Cytunwyd i osod hynny ar agenda'r Bwrdd Academaidd nesaf.	Gosod adolygiad yr ysgoloriaethau ar yr agenda	7 Chwefror 2018
6. Cynllunio Academaidd (Eitemau 6.1/6.2a/b/c)	6.1. Rhoddwyd amlinelliad o'r broses cynllunio academaidd gan Dr Dylan Phillips gan gynnwys amserlen cyflwyno'r cynlluniau pynciol i'r Bwrdd Academaidd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	6.2. Cyflwynwyd y cynlluniau pynciol canlynol gan y Cofrestrydd: • Daearyddiaeth, Amaeth a'r Amgylchedd • Gwyddorau Chwaraeon • Busnes a Rheolaeth 6.3. Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y cynlluniau â mân newidiadau. 6.4. Trafodwyd data a chysondeb data ynghylch rhuglder ieithyddol myfyrwyr. 6.5. Nodwyd y cyhoeddwyd ar 17 Hydref 2017 bod rownd nesaf y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn cynnwys tri trothwy credydau - o leiaf 40 credyd, 5 i 40 credyd a llai na 5 credyd wrth gategoreiddio'r Gymraeg. Mae hwn yn ddatblygiad newydd sy'n gyson gyda dyheadau'r Bwrdd Academaidd. 6.6. Adroddwyd y bydd y cynlluniau'n weithredol ar ôl eu cymeradwyo a rhagwelir y bydd pob cynllun yn parhau i gael ei ddiwygio o dro i dro yng ngoleuni datblygiadau. Bydd y paneli yn rhan o'r broses honno ac adroddir ar unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r Bwrdd Academaidd. 6.7. Nodwyd penderfyniadau diweddar gan y Coleg gan gynnwys: • Trefniadau diwygiedig ar gyfer sefyllfaoedd lle bydd darlithwyr a noddir drwy'r Cynllun Staffio'n ymadael cyn diwedd tymor y cyllido. Bydd y Coleg yn trafod cynnig grant pynciol yn hytrach nag ail-lenwi swydd wag. • Categoreiddio Newyddiaduraeth fel pwnc categori 2. • Darparu grant pynciol i Astudiaethau Gofal Iechyd yn Grŵp Llandrillo Menai.	LM i ddiwygio'r cynlluniau	Tachwedd 2017
7. Cyflwyniad gan Brifysgol Bangor	7.1. Darparwyd cyflwyniad gan Dr Myfanwy Davies a Dr Llion Jones ar Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu Prifysgol		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Bangor ac agweddau yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. 7.2. Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad a oedd yn arddangos ystadegau trawiadol ynghylch cyflogadwyedd myfyrwyr a oedd wedi astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. 7.3. Nodwyd yr angen i fwydo'r ystadegau i ddeunyddiau cyfathrebu'r Coleg.	Cyfathrebu'r data mewn deunyddiau hyrwyddo	2017/18
8. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (Eitemau 7a/b)	8.1. Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, 11 Mai 2017, er gwybodaeth. 8.2. Derbyniwyd adroddiad Tony Platt ar drefniadau a dogfennaeth yn ymwneud â darpariaeth (modiwlau) cydweithredol. 8.3. Nodwyd rhai sylwadau ynghylch amserlenni arholiadau i'w cyflwyno at sylw'r pwyllgor. 8.4. Awdurdodwyd y pwyllgor i gymeradwyo'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf ar 8 Tachwedd 2017.	Sylwadau i'r PCA	Erbyn 8 Tachwedd 2017
9. Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 8)	9.1. Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 7 Mehefin 2017, er gwybodaeth. 9.2. Adroddwyd bod dyfodol y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad Llywodraethiant y Coleg. 9.3. Anogwyd cyfrannu erthyglau i *Gwerddon* gan yr Athro Eleri Pryse, Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol.		
10. Papur trafod y myfyrwyr (Eitem 9)	10.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar godi ymwybyddiaeth o waith canghennau'r Coleg o fewn y prifysgolion gan Laura Beth Davies. 10.2. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd myfyrwyr i gyfarfod nesaf y Swyddogion Cangen.	Cynrychiolydd myfyrwyr i fynychu cyfarfod y Swyddogion Cangen	Cyfarfod Swyddogion Cangen nesaf

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.3. Nodwyd y bydd y Deon yn trafod rôl y Gangen gyda'r Swyddogion Cangen ar ei daith flynyddol eleni. 10.4. Atgoffwyd y myfyrwyr y byddai disgwyl iddynt benderfynu ar bwnc a chyflwyno papur trafod i'r cyfarfod nesaf ar 7 Chwefror 2018.	Deon i drafod rôl y Gangen NB i atgoffa'r myfyrwyr	Taith flynyddol Erbyn Ionawr 2018
11. Materion yn codi	11.1. Eitem 8: Ysgoloriaethau Ymchwil. Cadarnhawyd y cylchredwyd rhestr o'r ysgoloriaethau ymchwil i'r aelodau. Dosberthir gwahoddiad ar gyfer y cylch nesaf o ysgoloriaethau ymchwil yn fuan. 11.2. Eitem 12.1: Ehangu Mynediad a Chyfranogiad. Ni chafwyd diweddariad ar faes ehangu mynediad a chyfranogiad gan nad oedd Delyth Murphy'n bresennol. Bydd eitem yn y cyfarfod nesaf. 11.3. Nodwyd y byddai'r Coleg yn gwahodd Siôn Jones i roi cyflwyniad ar ei waith ymchwil am fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a goblygiadau hynny i waith y Coleg. 11.4. Eitem 12.3: QAA. Adroddwyd bod y swyddogion yn parhau i aros am ddyddiad cyfarfod gyda'r QAA. 11.5. Trafodwyd anghenion asesu yn yr iaith wreiddiol a chytunodd Prifysgol Abertawe rannu arfer da. Nodwyd bod angen i'r Deon gysylltu â phob sefydliad ynghylch eu harferion. 11.6. Eitem 13.5 – Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd pawb a fu'n rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol. Adroddwyd bod nifer o ystyriaethau wrth fynd i'r afael ag Eisteddfod Caerdydd yn 2018. Yr Athro Bill Jones a fydd yn traddodi'r Ddarlith Flynyddol.	Eitem benodol Deon i gysylltu â phob sefydliad	7 Chwefror 2018 Erbyn 7 Chwefror 2018
12. UFA	12.1. Wrth ystyried cynrychiolaeth myfyrwyr anogir y paneli pynciol i sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	12.2. Mewn ymateb i ymholiad ar sut y mae'r Coleg yn buddsoddi, cyfeiriwyd at yr adrannau priodol yn yr Adroddiad Blynyddol. 12.3. Anogwyd enwebiadau ar gyfer Gwobr Eilir Hedd Morgan. 12.4. Nodwyd bod y Deon wedi siarad yng nghinio dwyflynyddol Cronfa Glyndŵr, sy'n ariannu gwaith mewn ysgolion, lle y bu'n lledaenu neges y Coleg. 12.5. Nodwyd y derbyniwyd llythyr gan Gyngor Ynys Môn ynghylch niferoedd myfyrywr Astudiaethau Crefydd a goblygiadau hynny i'r cyflenwad o athrawon pwnc.		
13. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	13.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 7 Chwefror 2018, Prifysgol Abertawe • 2 Mai 2018, Prifysgol Metropolitan Caerdydd 13.2. Diolchwyd i Brifysgol Bangor am y croeso ac am letya'r cyfarfod.		